

Beth yw Guess Whorl?

Yn debyg i Guess Who, mae Guess Whorl yn gêm o gardiau cystadleuol lle mae chwaraewyr yn cymryd tro i ofyn cwestiynau i'w gilydd am nodweddion adnabod. Amcan y gêm yw cyfrifo pa rywogaeth o Falwod Dŵr Croyw Prydeinig mae'r chwaraewr arall wedi ei ddewis, gan ofyn cwestiynau fel; "Ydi cragen y falwen yn bigfain?" ac "Oes patrymau lliwgar ar gragen y falwen?".

Cafodd Guess Whorl ei greu i weithio fel arf addysgiadol. Wrth chwarae'r gêm, mae chwaraewyr yn dysgu am y gwahaniaethau rhwng rhywogaethau o falwod dwr croyw Prydeinig a sut i gyfrifo a disgrifio'r gwahaniaethau yma fel tacsonomydd.

Beth yw'r rheolau?

Mae Guess Whorl yn addas i chwaraewyr o bob oedran a chefnidir. Dim ond dau chwaraewr sydd angen i chwarae a dylai pob chwaraewr gael y canlynol:

- a. Copi o'r 17 Cerdyn Chwarae
- b. Copi o'r 17 Cerdyn Rhywogaeth

Mae'r templedi ar gyfer y cardiau yma ar y ddogfen PDF 'Cardiau Guess Whorl'. I ddechrau'r gêm dylai'r chwaraewyr osod y cardiau yma ar y llawr o'u blaen, **yn wynebu i fyny** (fel isod).




Mae rhaid i bob chwaraewr dewis un Cerdyn Rhywogaeth ar hap (17 dewis sydd). Mae'r Cardiau Rhywogaeth yn edrych bron yn union fel y Cardiau Chwarae. Dylai'r chwaraewyr guddio'r Cerdyn Rhywogaeth oddi wrth y chwaraewr arall.

Er enghraifft, mae Chwaraewr 1 yn ddewis y Falwen Gorn-Maharen Nawtilws o'r Cardiau Rhywogaeth.


Enw'r falwoden yma yw'r Malwen Gorn-Maharen Nawtilws. *Gyraulus crista* yw'r enw Lladin.


Malwen Gorn-Maharen Nawtilws
(Gyraulus crista)




O'r top, mae'r gragen yn edrych fel olwyn. Wrth edrych o'r ochr, gwelwn bod y gragen yn wastad ac yn llaw-chwith (gan fod yr agoriad ar y chwith). Mae'r gragen wedi gorchuddio gyda chribau (wedi ei labelu), ond nid oes unrhyw batrymau lliwgar.


Mae'r eiconau yma yn dangos i ni fod gan y falwen yma waed lliw coch, mae'r falwoden yn anadlu mewn dŵr ac mae'r rhywogaeth yn gyffredin ar draws Prydain.


GWAED COCH


ANADLU AER


CYFFREDIN

Pwll
3mm



Mae'r falwen yma, sy'n 3mm ar draws, yn byw mewn pyllau.

CERDYN RHYWOGAETH







Mae'r chwaraewyr yn gofyn cwestiynau, un ar ôl y llall, am nodweddion adnabod er mwyn dyfalu'r rhywogaeth ddirgel – y rhywogaeth gafodd ei ddewis gan y chwaraewr arall (**ar waelod y ddogfen mae rhestr o gwestiynau i ofyn**).

Yn yr enghraifft yma mae Chwaraewr 2 yn gofyn: “Oes gan y gragen yma gribau?”. Mae rhaid ateb cwestiynau gyda naill ai **OES/YDI** neu **NA**. Mae Chwaraewr 1 yn ateb “Oes”.

Mae Chwaraewr 2 yn deall nawr bod gan y falwen ddirgel gribau. Mae Chwaraewr 2 yn **troi drosodd** pob Cerdyn Chwarae sy'n dangos llun o falwen **heb** gribau.

Mae Chwaraewr 1 yn cael siawns wedyn i ofyn cwestiwn, a dyma sut mae'r gêm yn parhau. Mae'r chwaraewyr yn parhau i ofyn cwestiynau am nodweddion adnabod tan fod gan un o'r chwaraewyr ddim ond un Cerdyn Chwarae ar ôl. Enillydd y gêm yw'r chwaraewr cyntaf i ddyfalu pa rywogaeth o falwen gafodd ei ddewis gan y chwaraewr arall.

Mwynhewch! Gadewch i ni wybod os ydych chi'n hoffi'r gêm trwy @CardiffCurator a gyda'r hashnod #NaturArEichStepenDrws.

Cwestiwn	Opsionau	
Ydy'r gragen yn lliwgar.....?	YDI	NA
Ydy'r falwoden yn byw mewn....?	<i>Pwll</i>	<i>Tŷ Gwydr Morfa heli Llyn Afon</i>
Ydy'r falwoden yn.....?	Llaw-chwith Llaw-dde	
Oes cribau (ridges) ar y gragen..?	OES	NA
Ydy'r gwaed yn lliw.....?	 GLAS	 COCH
Ydy'r falwoden yn anadlu mewn.....?	 AER	 DŴR
Ydy'r gragen yn.....mm ar draws?	3	5 10 20 30
Ydy'r gragen yn siâp.....?	Pigfain	Gwastad
Ydy'r falwoden yn.....ym Mhrydain?	 CYFFREDIN	 PRIN

Dyma restr o'r cwestiynau i chwaraewyr ofyn. 22 cwestiwn gwahanol sydd. Cofiwch, mae rhaid ateb pob cwestiwn gyda **YDI/OES** neu **NA**.